



## CYNGOR

### COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWDYD YN Y SIAMBR, TŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH, 23 MAI 2023 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd M. Adams – Maer  
Y Cynghorydd J. Simmonds – Dirprwy Faer

Y Cynghorwyr:

E.M. Aldworth, C. Andrews, A. Angel, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, P. Cook, D. Cushing, C. Cuss, D. T. Davies MBE, N. Dix, G. Ead, C. Elsbury, G. Enright, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Forehead, E. Forehead, J. E. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, M. James, L. Jeremiah, G. Johnston, J. Jones, A. Leonard, P. Leonard, C. Mann, A. McConnell, B. Miles, C. Morgan, B. Owen, T. Parry, L. Phipps, M. Powell, D. W. R. Preece, H. Pritchard, J. Pritchard, J. A. Pritchard, J. Rao, J. Reed, J. Roberts, E. Stenner, J. Taylor, A. Whitcombe, L. Whittle, S. Williams, J. Winslade, C. Wright a K. Woodland.

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), S. Harris (Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), R. Tranter (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), N. Taylor-Williams (Pennaeth Tai), F. Wilkins (Rheolwr y Gwasanaethau Tai), M. Betts (Rheolwr Ymwneud â Thenantiaid a Chymunedau), L. Allen (Rheolwr y Gwasanaethau Tai), E. Sullivan (Uwch-swyddog y Gwasanaeth Pwyllgorau) ac S. Hughes (Swyddog y Gwasanaeth Pwyllgorau).

### TREFNIADAU RECORDIO, FFILMIO A PHLEIDLEISIO

Bu i'r Prif Weithredwr atgoffa'r rheiny a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y bydd recordiad ohono ar gael ar ôl y cyfarfod ar wefan y Cyngor – [Cliciwch yma i'w wylio](#). Dywedodd y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

#### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Roedd ymddiheuriadau am absenoldeb wedi dod i law gan y Cynghorwyr C. Bishop, S. Cook, S. Kent, S. Morgan, D. Price, R. Saralis, J. Scriven, S. Skivens, C. Thomas ac W. Williams.

#### 2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyfeiriodd y Maer at y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr oedd wedi bod iddynt ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, a rhoddodd wybod i'r Aelodau iddo fod yn fodlon ac yn falch iawn o

gynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn nigwyddiad 10km Bryn Meadows ac agoriad Caffi Cymunedol yng Nghlwb Rygbi Machen, a bu iddo ddiolch am holl waith caled y staff ac Aelodau wardiau lleol. Roedd y Maer wedi bod i ddigwyddiad arbennig gyda Chlwb Rotari Coed Duon yng Ngwesty'r Maes Manor, y Coed Duon, a soniodd am yr adborth cadarnhaol yr oedd wedi'i gael gan drefnydd y Banc Bwyd o ran y cymorth a'r cyngor a ddarparwyd gan dîm Gofalu am Gaerffili.

**3. DERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)**

Nid oedd unrhyw ddeisebau wedi dod i law.

**4. CYFLWYNO GWOBROWYON**

Nid oedd unrhyw wobrowon i'w cyflwyno.

**5. DATGAN BUDDIANNAU**

Ni chafodd unrhyw fuddiannau eu datgan.

**6. CYFARFOD ARBENNIG Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR 23 CHWEFROR 2023**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2023 yn gywir.

**7. CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR 15 MAWRTH 2023**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2023 yn gywir.

**8. CYFARFOD ARBENNIG Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 19 EBRILL 2023**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2023 yn gywir.

**9. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A OEDD WEDI DOD I LAW O DAN REOL GWEITHDREFN 10(4)**

Cwestiwn gan y Cynghorydd B. Miles i'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, y Cynghorydd E. Forehead.

A all yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol amlinellu'r pwysau ar Ofal Cartref a'r hyn rydyn ni, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn ei wneud i geisio ateb y galw?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, y Cynghorydd E. Forehead, i'r Cynghorydd B. Miles.

Diolch yn fawr, Gynghorydd Miles, am y cwestiwn perthnasol iawn hwnnw. Fel y gŵyr yr Aelodau, mae'r Gwasanaethau Gofal Cartref wedi bod o dan bwysau ers cryn amser, ac nid yw'r pwysau hwn yn unigryw i Gaerffili. Mae ymdrechion yn cael eu gwneud yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i geisio gwella'r sefyllfa.

Rwy'n falch o allu rhoi gwybod i chi fod y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol a bod gennym ni ar hyn o bryd 175 awr o ofal yr wythnos nad ydym yn gallu eu darparu i 23 unigolyn, a dim ond un o'r rheiny sydd yn yr ysbyty. Yn flaenorol, roedd gennym dros 1000 awr o ofal yr wythnos nad oeddem yn gallu eu darparu i 100 o bobl.

Yn lleol, rydym wedi cynnal ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu, gan ddefnyddio ein staff ein hunain, wedi cynhyrchu fideo o'r swyddi sydd ar gael, ac wedi'u hyrwyddo'n helaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol, mewn sinemâu lleol ac ar fysiau. Mae staff hefyd wedi bod i'r holl ddigwyddiadau, ffeiriau ac ati ar draws y Fwrdeistref gyda'r Tîm Cyflogaeth i helpu pobl i lenwi ffurflenni cais, ac mae hyn wedi arwain at ganlyniadau da. Byddant yn gwneud hyn eto eleni.

Mae staff hefyd wedi bod i ysgolion a cholegau i hyrwyddo gofal cymdeithasol fel llwybr gyrfa ac i gynnig lleoliadau gwaith. Rydym hefyd wedi cyflwyno gwasanaeth asesu i gydweithio ag unigolion i hybu eu hannibyniaeth ac i leihau'r angen am wasanaethau statudol. Mae hyn yn gweithio'n dda, ac mae'r adborth gan gleientiaid a'u teuluoedd yn gadarnhaol iawn.

Yn rhanbarthol, rydym yn cydweithio â'n cymheiriaid ym mhedwar awdurdod lleol arall Gwent i geisio cynnal y staff yn y farchnad gofal cartref. Er enghraifft, fel rhan o gynllun y gaeaf, dyfarnwyd £1 ychwanegol yr awr i asiantaethau gofal cartref i'w drosglwyddo i'r staff mewn fyrdd amrywiol i adlewyrchu'r cynnydd ym mhrisiau tanwydd.

Yn genedlaethol, rydym yn defnyddio ymgyrch "Gofalwn" Gofal Cymdeithasol Cymru i hysbysebu ein holl swyddi gwag ar y wefan honno. Mae recriwtio a chadw yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i ni.

## **10. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A OEDD WEDI DOD I LAW O DAN REOL GWEITHDREFN 10(4)**

Cwestiwn gan y Cynghorydd K. Etheridge i Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan.

Gofyn i'r Arweinydd ddiffinio, a gwneud datganiad ar ba gyngor, ymgyngori ac ymgysylltiad a gafodd o ran uno Swydd Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phrifyrdd, o dan un Swydd Cabinet ac a yw'n teimlo y bydd hyn yn cynnig gwerth gorau ac effeithlonrwydd, effeithlonrwydd a lles dim ond 1 Aelod Cabinet wrth ymdrin â phortffolio mor fawr er budd Tîm Caerffili.

Ymateb gan Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd J. Pritchard, ar ran Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan, i'r Cynghorydd K. Etheridge.

Diolch yn fawr am y cwestiwn, Gynghorydd. Fe atebaf y cwestiwn hwn yn absenoldeb yr Arweinydd. Wrth fynd ati i uno swyddi'r Cabinet o ran Gwasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phrifyrdd, bu i'r Arweinydd gynnal trafodaethau â'r Cabinet cyfan. Gyda'n gilydd, rydym yn cadw llygad ar ein dulliau o weithredu o hyd ac rydym yn sicrhau bod unrhyw gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg a allai beri iddi fod yn bosibl gwneud pethau'n fwy effeithlon ac effeithiol bob amser yn cael eu hystyried yn llwyr. Bydd y modd y mae agweddau ar y ddau bortffolio'n gorgyffwrdd â'i gilydd, y berthynas waith agos ar draws y Cabinet, ynghyd â phrofiad y Cynghorydd George fel Aelod Cabinet ers tro, yn sicrhau bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud.

Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd K. Etheridge.

Gan fod y pwyllgorau craffu'n cael eu huno ym mis Medi, fel uno'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Craffu Addysg, a wnewch chi gadarnhau heno er cysondeb y bydd un swydd yn llai yn y Cabinet?

Ymateb gan Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd J. Pritchard, i'r cwestiwn atodol.

Diolch yn fawr, Gynghorydd Etheridge. Rwy'n cyfeirio'r Aelod at yr ymateb a roddwyd yn gynharach. Rydym wedi uno portffolio'r Cynghorydd George â phortffolio'r Cyn-aelod o'r Cabinet, y Cynghorydd J. Simmonds, fel y nodwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, felly ceir un swydd yn llai yn y Cabinet.

**11. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A OEDD WEDI DOD I LAW O DAN REOL GWEITHDREFN 10(4) – I'W ATEB YN YSGRIFENEDIG.**

Cwestiwn gan y Cynghorydd J. Winslade i Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan.

A fyddai'r arweinydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y pwysau oherwydd prinder tai ym Mwrdeistref Sirol Caerffili?

Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan, i'r Cynghorydd J. Winslade.

Atebwyd y cwestiwn yn ysgrifenedig, a dosbarthwyd yr ateb i'r holl Aelodau yn ysgrifenedig, yn sgil y newid i'r weithdrefn y cytunwyd arno yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor.

Mae'r amgylchedd y mae gweithwyr proffesiynol ym maes tai yn gweithredu ynddo wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn wedi rhoi mwy a mwy o bwysau ar bob un o'r 22 awdurdod tai Cymru, y rheiny sy'n berchen ar stoc a'r rhai nad ydynt, gyda'r awdurdodau'n wynebu peth o'r pwysau mwyaf yn ystod y cyfnod diweddar.

Ymhlith y ffactorau allanol sydd wedi arwain at y pwysau hwn dros y blynyddoedd diwethaf mae'r sefyllfa macroeconomaidd sy'n effeithio ar bob aelod o'r gymdeithas, gyda chostau byw yn effeithio ar bob un ohonom. Mae hyn yn effeithio ar berchnogion tai oherwydd cost benthyca a'r cynnydd yn y cyfraddau llog a chostau misol morgeisi; mae'n effeithio ar y landlordiaid hynny sy'n gosod eu heiddo i'r rheiny nad ydynt yn gallu fforddio prynu, ac sy'n meddwl ddwywaith erbyn hyn ynghylch gosod eu heiddo oherwydd costau morgeisi; mae llai o dai i'w rhentu yn peri i nifer y dinasyddion y mae angen tai fforddiadwy arnynt gynyddu, yn ogystal â'r rheiny sydd eisoes mewn tai, p'run a ydynt yn cael budd-daliadau ai peidio, oherwydd mae cost popeth yn cynyddu ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd i sicrhau bod modd i deuluoedd a bywydau barhau yn ôl yr arfer.

Rydym eisoes wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu troi allan o dan adran 21, a chynnydd yn nifer y bobl sy'n eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref. Mae'r nifer mwyaf erioed wedi gwneud cais i ymuno â'n cofrestr dai, sef 6300 o ymgeiswyr, ac mae'r nifer hwn yn cynyddu. Mae cyfanswm y rheiny a dderbyniwyd fel Pobl Ddigartref Angen Blaenoriaethol a Phobl Ddigartref Anfwriadol wedi cynyddu 44% dros y 12 mis rhwng mis Ebrill 22 a mis Ebrill 23, ac mae pum gwaith cymaint o deuluoedd mewn llety dros dro ym mis Ebrill 23 o'i gymharu â mis Ebrill 22. Yn y maes hwn yr ydym yn wynebu peth o'r pwysau mwyaf ac yn gweld effaith ffactorau allanol.

Mae Cartrefi Caerffili yn landlord cefnogol, ond mae lefelau'r dyledion gwael yn uchel erbyn hyn. Nid ydym yn fusnes sy'n gwneud arian, ac nid oes arnom eisiau gweld pobl yn cael eu troi allan, gan beri bod angen i'n gwasanaeth digartrefedd statudol eu cynorthwyo. Rydym wedi creu mwy o swyddogion cymorth tenantiaeth i roi cyngor a chymorth i gynnal tenantiaethau, yn hytrach na mynd ati i droi pobl allan oherwydd ôl-ddyledion rhent.

Mae mwy o bobl yn eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref oherwydd y pwysau ariannol ar rai sy'n rhentu tai preifat, gan fod cost rhent preifat ar draws y Fwrdeistref Sirol wedi cynyddu, fel y mae ar draws Cymru, ac mae cynnydd yng nghostau morgeisi landlordiaid ac, yn wir, achosion o ddiffygdalu morgeisi gan berchnogion tai hefyd yn effeithio ar y sefyllfa.

Serch hynny, dros y flwyddyn ddiwethaf neu ragor, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol mwyaf o ran rhentu eiddo ers 40 mlynedd, sef Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru), ac mae hyn yn effeithio ar landlordiaid preifat yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol. Mae'n rhoi mwy o hawliau i'r rhentwr sydd, mewn egwyddor, yn beth da; ond mae'r canlyniadau anfwriadol wedi peri bod llawer o landlordiaid preifat wedi gadael y sector, gan fod newidiadau deddfwriaethol a mwy o graffu, ynghyd â'r hinsawdd microeconomaidd, yn peri nad yw'n werth iddynt barhau i osod eiddo o safbwynt ariannol na gweinyddol. Mae hyn yn golygu bod ar fwy o bobl angen tai a bod llai o landlordiaid a allai fod wedi darparu llety dros dro i'r Cyngor i fynd i'r afael â digartrefedd yn barod i ymgysylltu â ni.

Mae hyn yn rhoi llawer mwy o bwysau o ran cael hyd i landlordiaid a'u denu i weithio gyda'r Cyngor er mwyn i Gartrefi Caerffili allu cartrefu ein pobl ddigartref mewn llety dros dro. Mae Allweddî Caerffili yn gweithio'n dda, ond mae hefyd yn dod yn anoddach annog y gwaith partneriaeth hwn gan fod llai o ddiddordeb.

Mae'r argyfwng dyngarol yn Wcráin hefyd yn rhoi pwysau arnom, ynghyd â phenderfyniad y Swyddfa Gartref i wasgaru ceiswyr lloches ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu y gall fod ar fwy o deuluoedd angen llety fforddiadwy, ac mae angen chwilio am fwy o landlordiaid preifat ar gyfer gwahanol flaenoriaethau gwleidyddol sy'n peri bod llai o eiddo ar gael i fynd i'r afael â'r rheiny sydd mewn llety dros dro anaddas neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu'r lefelau uchaf erioed o Grant Tai Cymdeithasol ac wedi cyflwyno rhaglenni grant mwy hyblyg i gefnogi'r rheiny sydd mewn llety dros dro anaddas neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, ac mae hyn yn help mawr, ond a yw'n ddigon?

Mae angen adeiladu mwy o dai fforddiadwy newydd yng Nghaerffili, yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig.

Erbyn hyn, mae Cartrefi Caerffili yn adeiladu eto am y tro cyntaf ers rhyw 20 mlynedd, ac rydym wedi gwneud llawer o waith i ddatblygu cyflenwad o gyfleoedd datblygu posibl i ddarparu cartrefi newydd, eu hadeiladu, eu datblygu, bod yn berchen arnynt, a'u rheoli i gynyddu ein stoc dai. Rydym hefyd yn ystyried caffael eiddo sy'n cael ei roi ar y farchnad, ac yn bennaf yr eiddo a brynwyd o dan y drefn Hawl i Brynu lle y mae gennym hawl gyntaf i'w brynu, ac mae hyn yn gadarnhaol, ond dim ond un rhan o'r ateb ydyw. Rhaid i ni gael mynediad i'n tir ein hunain yn gyflymach ac yn fwy effeithlon a'i dywys drwy'r drefn gynllunio'n llawer cyflymach i sicrhau bod modd adeiladu mwy o gartrefi, mwy o gartrefi fforddiadwy, yn gyflymach. Rydym yn pwysu a mesur dulliau adeiladu modern i gyflymu'r broses o gyflenwi tai gan fod angen i ni ystyried pob dull a modd o'u cyflawni. Rhaid i ni adeiladu ein ffordd allan o'r argyfwng tai. Bydd angen i Dîm Caerffili yn ei gyfanrwydd gydweithio i gyflawni hyn.

Mae'r sefyllfa economaidd hefyd yn effeithio ar y maes hwn ac yn rhoi mwy o bwysau ar hyfywedd safleoedd penodol, ac mae'r gost o gyflenwi tai yn golygu ei bod yn anoddach sicrhau bod cynlluniau'n hyfyw o safbwynt ariannol. Mae hyn yn berthnasol i Gartrefi Caerffili o fewn y Cyfrif Refeniw Tai ac i'n partneriaid ar draws y sector landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Nid oes modd datblygu safleoedd o rai meintiau penodol, oherwydd byddent yn gwneud colled, ac ni allwn wneud colled o ran y cynllun busnes. Mae rhai tai'n costio mwy i'w hadeiladu nag y gellir eu gwerthu amdano, ac mae hyn yn arwydd clir bod angen addasu'r farchnad a'i bod wedi torri.

Mae ein staff rhagorol yn teimlo'r pwysau hwn, ond mae gennym broblemau recriwtio a chadw yn y sector. Roedd ystadegyn gan un o'n hawdurdodau cyfagos yn dangos bod cyflogau ei weithwyr cymorth tai wedi cynyddu ddim ond £1k dros y deg mlynedd diwethaf, ac eto rydym yn synnu ei bod yn anodd recriwtio ac, yn bwysicach fyth, cadw staff, yn y swyddi hollbwysig hyn i gynorthwyo'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Nid dim ond fan hyn y mae'r problemau recriwtio'n bodoli. Rydym yn landlord cymdeithasol mawr yng nghyd-destun Cymru, gyda thua 10,700 o gartrefi, ac mae llawer o bwysau arnom i sicrhau ein bod yn cynnal y tai hyn yn unol â Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae angen i ansawdd rhai o'n tai wella i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid, ac mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar dîm a chanddo gyfradd swyddi gwag o oddeutu 20% oherwydd heriau recriwtio a chadw. Mae recriwtio yn parhau i fod yn broblem, ac mae'n rhoi pwysau ychwanegol ar draws pob rhan o'r gwasanaeth.

Rydym yn troi at gontractwyr allanol i'n cynorthwyo i gynnal a chadw ein cartrefi, ond mae llai a llai yn derbyn swyddi o dan y fframweithiau presennol, felly rydym yn mynd ati i'w hadolygu i greu mwy o gapasiti yn y system i sicrhau bod modd i ni fynd i'r afael â'r holl waith gofynnol.

Mae Llywodraeth Cymru ar fin cyhoeddi safon newydd, sef Safon Ansawdd Tai Cymru 2023, a fydd yn golygu y bydd angen i ni wella perfformiad pob un o'n tai o ran ynni dros y blynyddoedd nesaf. Bydd hyn yn costio swm sylweddol o arian, a bydd yn destun trafodaethau pellach â'r Cabinet a'r Cyngor yn y dyfodol, ond mae hefyd yn galw am ystod newydd o sgiliau i gyflawni'r datrysiadau datgarboneiddio ar gyfer ein tai. Bydd angen ailsgilio Cymru gyfan a recriwtio'r rheiny sy'n meddu ar y set sgiliau hon. Mae hwn yn fater y mae angen i ni fynd i'r afael ag ef gyda'n gilydd ar draws Cymru nawr.

Er mai hwn yw'r cyd-destun y mae Cartrefi Caerffili ac awdurdodau tai statudol eraill yn gweithredu ynddo ledled Cymru, rydym yn dal i gyflawni ein hamcanion i gyd, drwy gynnal a chadw ein stoc, adeiladu tai newydd, cydweithio â landlordiaid preifat, adolygu tai gwag i sicrhau bod modd eu defnyddio eto, ac adolygu ein tai byw bywyd hyn a'n llety gwarchod.

## **12. HYSBYSIAD O GYNNIG – CYFLOGWR SY'N CROESAWU TEULUOEDD MAETH**

Ystyriwyd yr hysbysiad o gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd E. Forehead a oedd yn ceisio cefnogaeth y Cyngor i ddarparu mwy o gymorth i staff sy'n maethu plant er mwyn iddynt gadw'r ddysgl yn wastad rhwng eu gwaith a'u cyfrifoldebau gofalu drwy gynnig hyd at bum diwrnod o absenoldeb â thâl iddynt fynd i sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'u swyddi. Byddai gan gyflogeion hefyd hawl i amser ychwanegol o'u gwaith heb dâl i ymdrin ag argyfyngau annisgwyl, fel croesawu plant i'w cartrefi ar fyr rybudd.

Rhoddyd gwybod i'r Aelodau fod Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ystyried yr hysbysiad o gynnig yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2023 a'i fod wedi cefnogi'n unfrydol ei argymhelliad i'r Cyngor.

Bu i'r Aelodau groesawu'r hysbysiad o gynnig a bu i Aelodau'r Wrthblaid gadarnhau y byddent wedi bod yn fwy na pharod i gefnogi'r cynnig yn ffurfiol pe bai'r cyfle wedi codi, a bu iddynt ofyn a fyddai modd iddynt gael eu cynnwys pan fyddai cynigion o'r fath yn cael eu cynnig yn y dyfodol. Bu i'r Dirprwy Arweinydd gadarnhau y byddai'n fwy na bodlon gweithio gydag Aelodau'r Wrthblaid yn hyn o beth.

Ar ôl ystyried yr hysbysiad o gynnig, ac ar ôl iddo gael ei gynnig a'i eilio, drwy Microsoft Forms, a chan nodi bod 57 o blaid, dim yn erbyn a dim wedi ymatal, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD cefnogi'r hysbysiad o gynnig.

## **13. HYSBYSIAD O GYNNIG – TLODI TANWYDD**

Ystyriwyd yr hysbysiad o gynnig diwygiedig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd C. Andrews. Bu i'r Cynghorydd Andrews amlinellu'r cynnig a'r gwelliant a oedd yn ceisio cefnogaeth y Cyngor i ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ofyn iddi basio deddfwriaeth i atal

cwmniau ynni rhag mynd i gartrefi pobl a gosod mesuryddion rhagdalau, oni bai fod yr aelwyd o dan sylw'n gofyn i gwmni wneud hynny. Hefyd, dylai fod gan bobl hawl i gael mesuryddion rhagdalau wedi'u tyngu o'u cartrefi.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ystyried yr hysbysiad o gynnig yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2023 a'i fod wedi cefnogi'n unfrydol ei argymhelliad i'r Cyngor.

Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r hysbysiad o gynnig yn llwyr a bu iddynt fynegi siom eto na chafodd ei ddsbarthu'n ehangach i roi cyfle i bob plaid gefnogi'r cynnig yn ffurfiol.

Roedd gwelliant i'r cynnig yn awgrymu y dylid anfon llythyr i'r Senedd hefyd i ofyn iddi ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig i fynegi ei chefnogaeth, a bu i'r Cyngorydd Andrews, fel cynigydd y cynnig, dderbyn y gwelliant.

Ar ôl trafod yr hysbysiad o gynnig, ac ar ôl iddo gael ei gynnig a'i eilio, drwy Microsoft Forms, a chan nodi bod 57 o blaid, dim yn erbyn a dim wedi ymatal, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD cefnogi'r hysbysiad o gynnig diwygiedig.

## **ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

Ystyriwyd yr adroddiadau a ganlyn.

### **14. CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIWTAI 2023/24**

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cyngor ystyried Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/24, mynegi barn arno, a chymeradwyo estyn y cap benthycia i £100m.

Bu i'r Aelodau nodi bod y Cynllun Busnes yn un o ofynion blynyddol Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses flynyddol o gyflwyno cais i gael grant y Lwfans Atgyweiriadau Mawr.

Bu i'r Aelodau hefyd nodi bod y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio wedi ystyried yr adroddiad ar 27 Chwefror 2023 a bod y Cabinet wedi'i drafod ar 8 Mawrth 2023. Cyfeiriwyd yr Aelodau at y rhan o'r adroddiad a oedd yn ymwneud ag ymgynghori, lle'r oedd sylwadau'r ddau wedi'u nodi.

Trafodwyd effaith y cynnydd chwyddiannol nas gwelwyd ei debyg o'r blaen a natur anwadal y farchnad o ran costau deunyddiau a chostau cymorth a llafur, a bu i'r Aelodau gydnabod yr effaith sylweddol y gallai hyn ei chael ar ymrwymadau adeiladu tai newydd, yn ogystal â'r agenda datgarboneiddio uchelgeisiol sydd yn yr arfaeth.

Gofynnwyd am eglurhad o ran lansiad Safon Ansawdd Tai Cymru 2 gan Lywodraeth Cymru, a bu i'r Swyddogion gadarnhau bod ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi'n fanwl ar hyn o bryd. Serch hynny, bydd un o'r newidiadau mwyaf a gyflwynir gan y Safon newydd yn ymwneud â chynhesrwydd a datgarboneiddio. Hyd nes y cytunir ar Safon Ansawdd Tai Cymru 2, a hyd nes iddi gael ei chyhoeddi a dod i rym, dywedodd y Swyddogion fod rhaid parhau i fodloni gofynion Safon Ansawdd Tai bresennol Cymru o leiaf.

Rhodddwyd sicrwydd i'r Aelodau y bydd Safon Ansawdd Tai Cymru 2 yn cael sylw helaeth yng nghyfarfodydd y pwyllgorau craffu ac y bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno yn ei chylch, o ystyried ei harwyddocâd.

Yna, gofynnwyd am eglurhad o ran nifer yr unedau gwag yn y Fwrdeistref a'r amser y disgwylir iddo'i gymryd i sicrhau bod modd defnyddio'r unedau hyn eto. Bu i'r Swyddogion

gadarnhau nad yw lefelau'r unedau gwag fel y byddent yn dymuno, a bu iddynt gadarnhau bod 131 uned wag yn y Fwrdeistref ar hyn o bryd, sef ffigur sy'n agos at y cyfartaledd ar gyfer stoc dai o'r maint hwn. Dywedodd y Swyddogion hefyd ei bod yn cymryd tua 10 wythnos ar gyfartaledd i sicrhau bod modd eu defnyddio eto. Mae'r amserlen hon yn dibynnu'n llwyr ar gyflwr yn eiddo sy'n cael ei ddychwelyd, gan fod rhai unedau mewn cyflwr pur wael pan fyddant yn cael eu dychwelyd. Bu i'r Swyddogion gadarnhau eu bod wedi ymrwymo i wella'r amserlen hon.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch nifer yr unedau gwag yn y Fwrdeistref sydd mewn dwylo preifat, a rhoddodd y Swyddogion ddiweddariad am waith y Tîm Eiddo Gwag, gan gadarnhau'r dull cadarn y mae'r Tîm yn ei ddefnyddio i sicrhau bod yr unedau hyn ar gael i'w defnyddio eto. Yna, gofynnwyd am eglurhad pellach o ran 'gwerthu gorfodol', a'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r broses hon. Bu i'r Swyddogion gadarnhau bod y broses yn cymryd amser hir, ond roedd yn broses gyfreithiol ac, fel y cyfryw, roedd rhaid ei dilyn mewn ffordd benodedig. Cafodd yr Aelodau eu calonogi gan y camau a oedd yn cael eu cymryd a'r ffaith bod y Swyddogion yn ystyried pob dull a modd i gysylltu â pherchnogion eiddo gwag.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y bydd mwy o gwmnïau lleol yn cael eu cynnwys yng nghadwyn gyflenwi'r rhaglen adeiladu tai newydd, a bu i'r Swyddogion egluro elfen gwerth cymdeithasol y broses gaffael sy'n sicrhau y bydd hyn yn digwydd.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i denantiaid o ran ôl-ddyledion rhent, a bu i'r Swyddogion gadarnhau bod £3m o gymorth ychwanegol wedi'i sicrhau i gynorthwyo tenantiaid i barhau â'u tenantiaethau.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion a geir yn adroddiad y Swyddog. Drwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (a chan nodi bod 52 o blaid, dim yn erbyn ac un wedi ymatal), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

#### PENDERFYNWYD:-

1. Nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio a'r Cabinet.
2. Nodi bod y Cabinet wedi ystyried a chymeradwyo Cynllun Busnes Tai 2023/24 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2023.
3. Cymeradwyo estyn cap benthyca'r Cyfrif Refeniw Tai i £100m o ganlyniad i chwyddiant uwch na'r disgwyl i gynnal gwasanaethau ac i fwrw ymlaen â'r rhaglen i adeiladau tai newydd.

## 15. **DYFODOL TASGLU CARTREFI CAERFFILI**

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cyngor ystyried dyfodol Tasglu Cartrefi Caerffili, a chytuno arno, gan fod Rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru wedi'i chwblhau.

Bu i'r Cyngor nodi bod y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2023 a bod y Cabinet wedi'i drafod ar 8 Mawrth 2023. Cyfeiriwyd yr Aelodau at adran 10 o'r adroddiad a'r sylwadau a geir ynddi.

Bu i'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelodau gofnodi eu diolch i'r tenantiaid a oedd wedi gwasanaethu ar Dasglu Cartrefi Caerffili am eu holl waith caled a'u hymrwymiad, a bu iddynt ganmol y cyfraniadau a wnaed ganddynt drwyddi draw.

Trafodwyd y rhan y gallai Grwpiau Tenantiaid ei chwarae o ran unedau gwag, a bu i un o'r Aelodau bwysleisio'r angen i fwrw ymlaen â dull mwy dynamig o fynd i'r afael ag unedau



gwag, efallai drwy drefn arolygu gryfach. Mynegodd y farn y byddai gwella'r agwedd hon yn helpu i leihau digartrefedd a nifer y rhai sy'n dibynnu ar lety gwely a brechwast. Wedi'r cyfan, po gyflymaf y bydd unedau ar gael i'w defnyddio eto, po gyflymaf y gellir eu gosod. Bu i'r Prif Weithredwr gydnabod y pryderon a fynegwyd, a bu iddi gadarnhau y bydd y Pwyllgor Craffu perthnasol yn rhoi sylw iddynt.

Cytunodd yr Aelodau nad oedd y Tasglu o fudd mwyach, ond bu iddynt ofyn am sicrwydd y bydd y gwaith o ymgysylltu â thenantiaid ac o roi cyfle iddynt gymryd rhan yn parhau. Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd yr Aelodau at adran 5.7 o adroddiad y Swyddogion a oedd yn rhoi manylion ymgysylltu â darpar denantiaid/deiliaid contract ac yn tynnu sylw at y dulliau amrywiol a fydd yn cael eu defnyddio i ddarparu cyfleoedd i denantiaid/deiliaid contract gael dylanwad ystyrion a chadarnhaol ar y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, gan gynnwys Cyfnewid Gwybodaeth Tenantiaid, Sesiynau Sgwrsio Dweud Eich Dweud, a Phartneriaeth Gwella Tai. Pwysleisiwyd y rôl bwysig y bydd Aelodau Wardiau Lleol yn ei chwarae o ran ymgysylltu â thenantiaid hefyd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog. Drwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (a chan nodi bod 54 o blaid, dim yn erbyn a dim wedi ymatal), cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

#### PENDERFYNWYD:-

1. Cymeradwyo dirwyn Tasglu Cartrefi Caerffili i ben am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad.
2. Canmol Tasglu Cartrefi Caerffili am y cyfraniad yr oedd wedi'i wneud tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru.
3. Cydnabod a chymeradwyo'r amrywiaeth o ddulliau presennol a dulliau newydd posibl a ystyrir gan Gartrefi Caerffili i ymgysylltu â thenantiaid/deiliaid contract yn awr ac yn y dyfodol. Bu i'r Cyngor nodi y bydd y cynigion ar gyfer ymgysylltu effeithiol ac ystyrion yn sicrhau bod cyfle i fwy o denantiaid/deiliaid contract fynegi'u barn a chymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori ynghylch hynt gwaith Cartrefi Caerffili yn y dyfodol. Bydd y Pwyllgor Craffu yn cael adroddiadau i'w hystyried am unrhyw gynigion i newid y broses o ymgysylltu / ymgynghori â thenantiaid, cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet eu cymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:35.

Cymeradwywyd fel cofnod cywir ac, yn ddibynnol ar unrhyw newidiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2023, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

---

Y MAER